



Rheolwr Prosiect – Gwyddoniaeth ym Myd Natur

Manyleb y Person

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn weithiwr proffesiynol profiadol ym maes yr amgylchedd neu wyddoniaeth, sy'n gallu cyfuno gwaith maes ymarferol, gwaith labordy a phrofi ymweithredyddion disgybledig, GIS, rheoli data, dadansoddi ac ysgrifennu adroddiadau. Nid swydd ddatblygu ar lefel mynediad yw hon.

Mae'r rôl yn gofyn am berson sy'n gallu ysgwyddo cyfrifoldeb, arfer barn gadarn a chwblhau gwaith manwl gywir gyda lefel uchel o annibyniaeth.

H = Hanfodol

D = Dymunol

Asesiad = dull(iau) dynodol

Mae'r meini prawf hanfodol yn ofynion gwirioneddol ar gyfer y rôl. Bydd meini prawf dymunol yn cael eu defnyddio i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r safon hanfodol. Gellir ystyried profiad perthnasol cyfatebol pan fydd maen prawf yn caniatáu hynny'n benodol.

Cymwysterau a sylfaen broffesiynol

Maen Prawf	H/D	Asesiad
Cymhwyster lefel gradd wedi'i gwblhau mewn gwyddoniaeth amgylcheddol, ecoleg, bioleg, rheolaeth amgylcheddol, daearyddiaeth, cadwraeth, gwyddoniaeth dŵr croyw neu ddisgyblaeth wyddonol / amgylcheddol arall sy'n uniongyrchol berthnasol.	H	CV / tystysgrifau
Dwy flynedd o leiaf o brofiad ymarferol neu broffesiynol perthnasol mewn monitro amgylcheddol, gwaith maes ecolegol, gwyddoniaeth labordy, ymchwil amgylcheddol, cadwraeth neu faes cysylltiedig (ar gyfer graddedigion newydd - byddwn yn ystyried profiad sy'n seiliedig ar radd)	H	CV / datganiad / cyfweliad
Cymhwyster ôl-raddedig mewn disgyblaeth amgylcheddol neu wyddonol berthnasol.	D	CV

Labordy, profi ymweithredyddion a systemau gwaith diogel

Maen Prawf	H/D	Asesiad
Profiad ymarferol clir mewn labordy mewn lleoliad amgylcheddol, gwyddonol, dadansoddol, academiaidd neu leoliad tebyg.	H	CV / datganiad / cyfweliad
Profiad ymarferol o weithio gydag ymweithredyddion cemegol a dilyn gweithdrefnau profi dadansoddol.	H	CV / datganiad / cyfweliad
Profiad clir o ddilyn systemau gwaith diogel mewn labordy neu amgylchedd profi gwyddonol.	H	Datganiad / cyfweliad
Dealltwriaeth o fesurau rheoli COSHH, Taflenni Data Diogelwch, gwybodaeth am beryglon, PPE a mesurau rheoli priodol.	H	Datganiad / cyfweliad / asesiad
Y gallu i fesur, dosbarthu, cymysgu a thrin ymweithredyddion yn fanwl gywir ac yn gyson ac i ddilyn dulliau a ragnodir heb lwybrau byr.	H	Cyfweliad / asesiad
Dealltwriaeth o atal llygru / trawslygru, technegau gweithio glân, gofal o offer ac olrheiniadwyedd gwyddonol.	H	Cyfweliad / asesiad
Profiad o reoli ansawdd, gwiriadau calibradu, mesurau rheoli swp / dyddiad dod i ben ymweithredyddion neu brosesau sicrhau ansawdd labordy tebyg.	D	CV / cyfweliad

Gwaith maes, monitro dŵr ac ecoleg

Maen Prawf	H/D	Asesiad
Profiad gwaith maes awyr agored / amgylcheddol ymarferol sylweddol.	H	CV / datganiad / cyfweliad
Profiad o samplu ansawdd dŵr, samplu amgylcheddol neu fonitro maes cysylltiedig.	H	CV / datganiad / cyfweliad
Profiad o gic-samplu a samplu macro-infertebrata dŵr croyw, neu ddealltwriaeth ymarferol glir ohonynt.	H	CV / cyfweliad
Y gallu i weithio'n ddiogel o amgylch afonydd, cyrsiau dŵr, aberoedd / ardaloedd arfordirol a thir anwastad mewn tywydd amrywiol drwy gydol y flwyddyn.	H	Datganiad / cyfweliad
Profiad o gofnodi arsylwadau maes, amodau safle, gwybodaeth GPS / lleoliad a thystiolaeth ffotograffig yn fanwl gywir.	H	CV / datganiad
Profiad o fonitro pryfed afon neu brofiad tebyg o fonitro infertebrata dŵr croyw.	D	CV / cyfweliad
Profiad o ecoleg dŵr croyw, arolygu bioamrywiaeth neu adnabod rhywogaethau dyfrol.	D	CV / cyfweliad

Samplau, Cadwyn Gwarchodaeth a chofnodion gwyddonol

Maen Prawf	H/D	Asesiad
Y gallu i labelu, cofnodi, storio a rheoli samplau amgylcheddol yn fanwl gywir ac yn gyson.	H	Datganiad / cyfweliad / asesiad
Profiad o gwblhau, gwirio neu weithio gyda dogfennaeth Cadwyn Gwarchodaeth neu gofnodion sampl dan reolaeth cyfatebol.	H	CV / cyfweliad / asesiad
Dealltwriaeth o integriti samplau, olrheiniadwyedd, stampiau amser, dynodwyr, gofynion storio a chadw cofnodion archwiliadwy.	H	Cyfweliad / asesiad
Profiad o galibradu, gwirio a chynnal offer monitro gwyddonol neu amgylcheddol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gweithdrefnau sefydledig.	H	Cyfweliad / asesiad
Y gallu i adnabod ac uwchgyfeirio bylchau, gwallau neu doriadau yn y Gadwyn Gwarchodaeth yn hytrach na chaniatáu bwrw ymlaen â chofnodion anghyflawn.	H	Cyfweliad / asesiad

GIS, data a gallu dadansoddol

Maen Prawf	H/D	Asesiad
Profiad ymarferol o ddefnyddio meddalwedd GIS / mapio gofodol.	H	CV / datganiad / asesiad
Y gallu i greu, golygu, dehongli a gwirio ansawdd mapiau a setiau data gofodol ac i weithio gyda chyfesurynnau GPS.	H	CV / asesiad
Sgiliau cadarn wrth drin taenlenni a hyder wrth drefnu, glanhau, prosesu a rheoli setiau data amgylcheddol.	H	CV / datganiad / asesiad
Sgiliau mewnbynnu data manwl gywir a threfnus, gan gynnwys y gallu i gadw cofnodion strwythuredig dros gyfnodau hir.	H	Datganiad / asesiad
Y gallu i nodi data coll, cofnodion dyblyg, unedau anghyson, canlyniadau annormal a phroblemau eraill posibl gydag ansawdd data.	H	Asesiad / cyfweliad
Y gallu i ddadansoddi a dehongli data amgylcheddol a dewis siartiau, tablau, mapiau, ystadegau neu allbynnau ysgrifenedig priodol.	H	Asesiad / cyfweliad
Y gallu i wahaniaethu rhwng beth mae data'n ei ddangos, beth mae'n ei awgrymu a beth na ellir ei gasglu'n rhesymol.	H	Asesiad / cyfweliad
Gallu ar lefel uwch i ddadansoddi GIS, dadansoddi gofodol neu ddadansoddi data amgylcheddol.	D	CV / asesiad

Sgiliau ysgrifennu, adrodd a chyfathrebu

Maen Prawf	H/D	Asesiad
Saesneg ysgrifenedig cadarn a gallu clir i ysgrifennu adroddiadau.	H	Datganiad ategol / asesiad
Y gallu i baratoi crynodebau technegol, adroddiadau, tablau, siartiau a mapiau clir ac esboniadau mewn iaith syml.	H	Datganiad / asesiad
Y gallu i gyfathrebu gwybodaeth wyddonol ac amgylcheddol yn glir i gynulleidfaoedd technegol ac annhechnegol.	H	Cyfweliad / asesiad
Cyfathrebu hyderus a phroffesiynol gyda phrifysgolion, cyrff anllywodraethol, cyrff statudol, sefydliadau cymunedol, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid allanol eraill.	H	Datganiad / cyfweliad
Profiad o ysgrifennu adroddiadau amgylcheddol, gwyddonol, prosiect neu dechnegol.	D	CV / esiamplau o waith / datganiad

Maen Prawf	H/D	Asesiad
Gallu a pharodrwydd i weithredu fel cynrychiolydd hyderus i ddelio â'r cyhoedd ac fel llefarydd prosiect ar gyfer APFN, gan gynnwys ymddangosiadau ar gamera ac ar y cyfryngau darlledu pan awdurdodir hynny.	H	Datganiad / cyfweliad / cyflwyniad
Y gallu i greu cynnwys cyfryngau cymdeithasol manwl gywir, hygyrch a diddorol, fideos byr a deunydd cyfathrebu cyhoeddus arall am waith gwyddonol ac amgylcheddol.	H	Cais / cyfweliad / cyflwyniad
Y gallu i gyfathrebu'n wrthrychol ac yn broffesiynol gyda newyddiadurwyr, gwleidyddion, cynulleidfaoedd cymunedol, rheoleiddwyr a phartneriaid prosiect, gan gydnabod pryd mae angen uwchgyfeirio ymholiad neu sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw.	H	Cyfweliad / cyflwyniad

Rheoli prosiect a gwaith annibynnol

Maen Prawf	H/D	Asesiad
Sgiliau trefnu a rheoli prosiect cadarn gyda thystiolaeth o gynllunio a chyflawni gwaith cylchol o fewn terfynau amser.	H	CV / datganiad / cyfweliad
Gallu clir i weithio'n annibynnol ac ysgwyddo cyfrifoldeb am eich baich gwaith eich hun heb oruchwyliaeth barhaus.	H	Datganiad / cyfweliad / geirda
Y gallu i adnabod problemau, ymchwilio iddynt yn briodol a chynnig datrysiadau ymarferol.	H	Asesiad / cyfweliad
Y gallu i gydbwyso gwaith maes ymarferol gyda chyfrifoldebau gwyddonol, GIS, data, gweinyddol ac adrodd manwl wrth ddesg.	H	Datganiad / cyfweliad
Y gallu i ddysgu offer, methodolegau a gweithdrefnau newydd yn gyflym gan gynnal manwl gywirdeb a diogelwch.	H	Cyfweliad / geirda
Profiad o weithio gyda phrifysgolion, cyrff anllwyodraethol amgylcheddol, rheoleiddwyr, awdurdodau lleol, cwmnïau dŵr neu sefydliadau ymchwil.	D	CV / datganiad
Profiad o gydlynu neu gefnogi gwirfoddolwyr neu weithgarwch partneriaid	D	CV / datganiad

Integriti gwyddonol a rhinweddau personol

Maen Prawf	H/D	Asesiad
Sylw eithriadol i fanylder ac ymrwymiad clir i fanwl gywirdeb.	H	Cais / asesiad / geirda
Lefel uchel o integriti personol, gonestrwydd ac atebolrwydd.	H	Cyfweliad / geirda
Y gallu i gadw cofnodion gwrthrychol ac adrodd ar ganfyddiadau annisgwyl, anghyfleus neu wrthgyferbyniol yn fanwl gywir.	H	Cyfweliad / asesiad / geirda
Barn broffesiynol gadarn, gan gynnwys parodrwydd i atal, ailadrodd neu uwchgyfeirio gwaith lle mae diogelwch neu integriti data yn y fantol.	H	Cyfweliad / asesiad
Dull gwaith rhesymegol, cydwybodol, dibynadwy a hunangymhellol.	H	Cais / cyfweliad / geirda
Chwilyfrydedd deallusol a pharodrwydd i gwestiynu canlyniadau anarferol yn hytrach na'u derbyn heb feirniadaeth.	H	Asesiad / cyfweliad
Agwedd hyblyg a pharod i addasu wrth i ofynion y prosiect ddatblygu.	H	Datganiad / cyfweliad / geirda
Diddordeb proffesiynol didwyll mewn amgylcheddau dŵr croyw, gwyddoniaeth amgylcheddol, ecoleg, cadwraeth neu reoli dalgyloedd.	H	Datganiad / cyfweliad

Gyrru, gwybodaeth leol ac iaith

Maen Prawf	H/D	Asesiad
Trwydded yrru lawn y DU.	H	Cais / gwirio trwydded
Y gallu i deithio'n annibynnol i leoliadau maes a chyfarfodydd sydd wedi'u cytuno.	H	Cais / cyfweliad
Gwybodaeth am ddalgylch Afon Ogwr, ardal Pen-y-bont ar Ogwr neu systemau afonydd De Cymru.	D	Cais / cyfweliad
Y gallu i siarad Cymraeg.	D	Cais / cyfweliad
Y gallu i ddarllen a / neu ysgrifennu Cymraeg.	D	Cais
Cymhwyster cymorth cyntaf awyr agored / argyfwng neu hyfforddiant diogelwch maes perthnasol arall.	D	CV / tystysgrifau

Gofynion ar gyfer y cais

- CV cyfredol yn nodi cymwysterau, hanes cyflogaeth, profiad technegol perthnasol, gwaith gwirfoddol a datblygiad proffesiynol.
- Datganiad ategol o ddim mwy na dwy dudalen A4 yn esbonio pam mae'r ymgeisydd yn gwneud cais, y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad y bydd yn eu cyfrannu, a pham ei fod yn credu mai ef yw'r person priodol i gyflawni Gwyddoniaeth ym Myd Natur. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio enghreifftiau penodol yn hytrach na dim ond ailadrodd y meini prawf.
- Enwau a manylion cyswllt tri chanolwr. Fel rheol, gofynnir am eirdaon yn dilyn cynnig amodol; ni chysylltir â chyflogwr cyfredol heb ganiatâd yr ymgeisydd.

Asesiad dewis

Efallai y gofynnir i ymgeiswyr ar y rhestr fer gwblhau asesiadau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r swydd. Gall y rhain gynnwys ymarfer mewnbynnu a phrosesu data gan ddefnyddio data amgylcheddol; dehongli tueddiadau, cyfyngiadau a chanfyddiadau; cynhyrchu siart, tabl, map neu allbwn ysgrifenedig priodol; tasg GIS; adolygu / cwblhau dogfennaeth y Gadwyn Gwarchodaeth; a / neu senario diogelwch gwyddonol neu brofi ymweithredyddion. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr esbonio ac amddiffyn y dull gweithredu a fabwysiadwyd ganddynt. Bydd yr un ymarfer craidd a'r meini prawf sgorio yn cael eu defnyddio'n gyson ar gyfer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer, yn amodol ar addasiadau rhesymol.

BYDD gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gwblhau tasg dylunio prosiect a data amgylcheddol a chyflwyno eu dull gweithredu i'r panel cyfweld. Bydd ymgeiswyr yn nodi sut byddent yn sefydlu ac yn cyflwyno Gwyddoniaeth ym Myd Natur: y dulliau y byddent yn eu dewis; samplu maes, ansawdd dŵr a monitro biolegol; gwaith ymweithredyddion / labordy diogel a Chadwyn Gwarchodaeth; mewnbynnu data GIS a strwythuredig; sicrhau ansawdd a dadansoddi; ysgrifennu adroddiadau ac adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol / ymddiriedolwyr; a chyfathrebu proffesiynol â'r cyfryngau, cynrychiolwyr etholedig, partneriaid, rheoleiddwyr a'r cyhoedd. Bydd y panel yn asesu'r fethodoleg arfaethedig, y gwaith trin data, integriti gwyddonol, barn a chyflwyniad. Rhoddir yr un briff craidd a'r meini prawf gwerthuso i bob ymgeisydd ar y rhestr fer, gydag addasiadau rhesymol lle bo hynny'n briodol.

- Dull gweithredu'r prosiect: rhaid cyfiawnhau'r cynllun monitro, yr amledd, y dulliau, y trefniadau diogelwch a'r mesurau rheoli ansawdd y byddech yn eu dewis ar gyfer dalgylch Afon Ogwr.
- Ymarfer data ymarferol: gweithio gyda'r data amgylcheddol a ddarparwyd, cofnodi penderfyniadau ynghylch mewnbynnu a dilysu data, a chyflwyno tabl, siart, map neu ddehongliad ysgrifenedig cryno priodol.
- Adrodd a phroffil cyhoeddus: egluro sut byddech yn adrodd yn fewnol ac yn cyflwyno tystiolaeth i'r cyfryngau, cynrychiolwyr etholedig, partneriaid a'r cyhoedd, gan gydnabod cyfyngiadau a sicrhau cymeradwyaethau.